Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Llywodraeth Cymru

21 Tachwedd 2017

Annwyl Mark

**Fframweithiau polisi cyffredin y DU: Trafodaethau manwl**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ddoe.

Yn y cyfarfod, gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau i chi ar y gwaith o ddatblygu fframweithiau polisi cyffredin y DU.

Gwnaethoch egluro fod Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU yn cynnal trafodaethau manwl ar y cyd i ymchwilio i ddichonoldeb cytuno ar fframweithiau polisi cyffredin ynghylch amaethyddiaeth, cyfiawnder ac iechyd cyhoeddus. Gwnaethoch ddweud y byddai pob un o'r sesiynau hyn yn cynnwys dau ddiwrnod o gyfarfodydd a bod cyfarfodydd o'r fath yn trafod amaethyddiaeth mewn manylder eisoes wedi'u cynnal.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i'r broses bwysig hon hefyd fod yn destun gwaith craffu priodol.

A fyddech cystal â darparu rhagor o fanylion i'r pwyllgor am y trafodaethau manwl ar amaethyddiaeth, gan gynnwys:

. cylch gorchwyl yr ymarfer hwn;

. enwau a theitlau’r unigolion a oedd yn bresennol yn ystod y ddau ddiwrnod o gyfarfodydd; a

. dyddiadau’r cyfarfodydd;

. allbynnau o’r cyfarfodydd a’r trafodaethau manwl (er enghraifft, adroddiadau, testun drafft, cofnodion ac ati); a

. chrynodeb o unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd, gan gynnwys y camau nesaf y cytunwyd arnynt.

O ran y trafodaethau manwl ar iechyd cyhoeddus, a allwch ddarparu’r wybodaeth a ganlyn: pa gyfarfodydd sydd wedi’u trefnu ar gyfer y dyfodol; y cylch gorchwyl y cytunwyd arno; a phwy yr ydych yn disgwyl iddynt fod yn bresennol.

Gwnaethoch egluro fod y trafodaethau manwl ar gyfiawnder yn fwy o ymarfer dwyochrog rhwng Llywodraethau’r Alban a’r DU. Hoffwn ofyn pryd y disgwylir i’r ymarfer hwn gael ei gynnal ac ym mha ffordd y disgwylir i Lywodraeth Cymru fod yn rhan ohono.

Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod cyflymder y broses hon yn arwain at rai heriau o ran y broses graffu – yn enwedig o ystyried mai dim ond rhai wythnosau sydd tan cyfarfod nesaf y JMC (EN). Croesewir cefnogaeth Llywodraeth Cymru a’i pharodrwydd i sicrhau bod y fath waith craffu yn cael ei wneud.

O ran yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y JMC (EN), rwy’n gobeithio y gallwch rannu’r agenda hon â’r Pwyllgor cyn gynted ag iddi gael ei chadarnhau. Yn benodol, hoffwn wybod a ydych yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu cymryd ar fframweithiau polisi cyffredin y DU neu Fil yr UE (Ymadael) yn y cyfarfod hwn.


Mae tryloywder y trefniadau rhynglywodraethol hyn yn bwysig – pwynt a bwysleisiwyd i'r Pwyllgor gan ei randdeiliaid. Rwy'n bwriadu ysgrifennu atoch eto gyda chais ehangach ynghylch y wybodaeth y bydd ei hangen ar y Pwyllgor yn y dyfodol i'n galluogi i graffu'n effeithiol ar y prosesau rhynglywodraethol hyn sy'n gysylltiedig â Brexit.

Mae'n debygol y bydd gennych y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn barod, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted ag y bo modd. Os yn bosibl, hoffwn gynnwys eich ymateb ymhlith papurau'r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2017. I'r perwyl hwnnw, byddai angen i'ch ymateb ddod i law erbyn 29 Tachwedd 2017.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig; Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon; a Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Diolch i chi am ystyried y cais hwn. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol